

PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

DYDD MAWRTH, 12 MEHEFIN 2018

Yn
bressenol: Cynghorydd Bridgeman (Cadeirydd),
Y Cynghorwyr Philippa Hill-John, Joyce, Murphy, Phillips, Taylor a/ac
Singh

Aelodau Cyfetholedig: Carol Cobert (Cynrychiolydd yr Eglwys yng
Nghymru), Rebecca Crump (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr)
a/ac Karen Dell'Armi (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr)

1 : PENODI CADEIRYDD AC AELODAU'R PWYLLGOR

Nododd y Pwyllgor fod y Cyngor ar 24 Mai 2018 wedi penodi'r Cynghorydd Lee
Bridgeman fel Cadeirydd a'r Aelodau canlynol i'r Pwyllgor:

Y Cynghorwyr De'Ath, Philippa Hill-John, Joyce, Morgan, Murphy, Phillips, Taylor a
Singh.

Yr Aelodau Cyfetholedig Patricia Arlotte (Cynrychiolydd yr Eglwys Babyddol), Carol
Cobert (Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru), Rebecca Crump (Cynrychiolydd
Rhiant-Lywodraethwr), Karen Dell'Armi (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwr).

2 : CYLCH GORCHWYL

Nododd y Pwyllgor y cylch gorchwyl fel a gytunwyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 24
Mai 2018.

Craffu, mesur a hyrwyddo gwelliant ym mherfformiad y Cyngor o ran cynnig
gwasanaethau a chydymffurfio â pholisïau, nodau ac amcanion y Cyngor ym maes
plant a phobl ifanc, gan gynnwys:

- Gwella Ysgolion
- Trefniadaeth Ysgolion
- Gwasanaethau Cymorth Ysgolion
- Lles Addysg a Chynhwysiant
- Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar
- Anghenion Addysgol Arbennig
- Gwasanaethau Llywodraethwyr
- Gwasanaethau Cymdeithasol Plant
- Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc
- Gwasanaethau Ieuenctid a Chyfiawnder
- Gwasanaethau Chwarae

Asesu effaith ein partneriaethau â sefydliadau allanol, adnoddau a'r gwasanaethau y
maent yn eu darparu, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, gwasanaethau llywodraeth
leol ar y cyd, Cyrff Cyhoeddus dan Nawdd Llywodraeth Cymru a chyrrff lled-adrannol
anllywodraethol ar effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cyngor.

Adrodd y canfyddiadau i gyfarfod perthnasol o'r Cabinet neu Gyngor a rhoi

argymhellion ynghylch mesurau a all wella perfformiad y Cyngor neu ei wasanaethau yn y maes.

3 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr De'Ath a Morgan, a Patricia Arlotte.

4 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

5 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 8 Mai yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

6 : ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTER 4 GWASANAETHAU PLANT

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Graham Hinchey (Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd), Sarah McGill (Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau) ac Irfan Alam (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant) i'r cyfarfod ac i gyflwyno'r adroddiad.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Hinchey i wneud datganiad. Ynddo esboniodd bod swyddogion o Wasanaethau Plant yn gweithio i ddatblygu fersiwn symlach o'r adroddiad perfformiad sy'n bodloni anghenion yr Aelodau ac yn galluogi swyddogion i roi'r wybodaeth angenrheidiol yn hawdd. Croesawodd gynnig y Pwyllgor i gael panel perfformiad.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau gyflwyniad a roddodd fraslun i'r Aelodau o'r dull newydd o reoli perfformiad. Pwysleisiodd ei dymuniad i wella adroddiadau perfformiad ac roedd yn cydnabod yr angen i'r Pwyllgor dderbyn gwybodaeth ychwanegol i ddeall yn llawn y materion yng Ngwasanaethau Plant.

- Clywodd yr Aelodau bod 15 o blant sy'n derbyn gofal wedi'u dychwelyd i Gaerdydd yn ystod y flwyddyn, a bod un person ifanc arall i'w dychwelyd. Er mwyn sicrhau bod plant naill ai'n aros yng Nghaerdydd neu'n cael eu dychwelyd i'r ddinas, manylodd Adroddiad yr Ymchwiliad Gorchwyl a Gorffen ar nifer o gamau i'r Cabinet eu hystyried. Mae'n bwysig, cymaint â phosib, bod yr amgylchedd teuluol yn cael ei ail-greu yng nghartrefi'r plant. Mae'n bwysig pan fo ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddychwelyd y plentyn i Gaerdydd, bod cymaint a phosib o fanylion ar gael i sicrhau bod y dewis cywir yn cael ei wneud dros y plentyn.
- Gofynnodd yr Aelodau pam fod 68% o'r atgyfeiriadau gan yr Heddlu i MASH am wybodaeth yn unig, ac/neu nad oedd angen gneud camau pellach. Cynghorodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol bod yr Heddlu'n rhannu gwybodaeth yn gyson a'u bod yn teimlo bod dyletswydd arnynt i roi gwybodaeth am bob achos i MASH.

Clywodd yr Aelodau bod yr atgyfeiriad sy'n cael ei gofnodi fel 'dim camau pellach' yn golygu nad oedd yn cyrraedd y trothwy. Nid yw hyn yn golygu fodd bynnag nad oes gwasanaethau eraill ar gael allai fod o gymorth e.e. gyda sgiliau rhianta, neu gyngor ariannol.

- Gofynnodd Aelodau am eglurhad ynglŷn â pha mor dda mae MASH yn gweithio. Fe'u cynghorwyd bod yr adborth o'r holl bartneriaid yn wych, yn arbennig am y gallu i gael trafodaethau agored. Mae atgyfeiriadau ar gynnydd ond mae hynny i'w ddisgwyl. Byddai gwybodaeth am achosion sy'n cael eu hatgyfeirio i ddarparwyr eraill o gwbl, o fudd pan yn ystyried y ffigyrau.
- Mynegodd aelodau bryder am ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant hynny sy'n derbyn gofal, sy'n cael eu lleoli y tu fas i'r sir. Awgrymodd yr Aelod Cabinet ei fod wedi cael trafodaethau â chydweithwyr mewn awdurdodau eraill, gyda'r nod o gael trefniadau i helpu'i gilydd.
- Gofynnodd aelodau am y strategaeth recriwtio sy'n cael ei datblygu ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, ac fe'u cynghorwyd bod angen iddi fod yn eang. Awgrymodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol bod anawsterau wrth recriwtio pobl i Rolau Amddiffyn Plant, er bod hyn yn broblem i weddill y wlad yn ogystal. Sicrhawyd yr Aelodau bod recriwtio yn parhau i fod yn flaenoriaeth.
- Nododd yr aelodau mai gofalwyr maeth mewnol sy'n gofalu am 93 o'r 102 o blant sy'n derbyn gofal. Mae rhieni maeth yn cael eu talu 'run fath, pa un ai ydynt yn annibynnol neu'n ofalwyr yr awdurdod lleol. Mae'n bwysig sicrhau bod y rhai sy'n dangos diddordeb mewn bod yn rieni maeth, yn gyflym iawn yn dod yn rieni maeth os yn addas. Mae'n bwysig bod yr awdurdod yn canolbwyntio ar farchnata, asesu a chefnogi gofalwyr maeth. Mae gwaith yn mynd rhagddo i weld pa gefnogaeth fyddai'n gwneud y gwahaniaeth i rieni maeth. Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei bod yn bwysig monitro'r raddfa y mae ymholiadau am faethu, yn troi yn rieni maeth, ac i fonitro'r symudiad tuag at rieni maeth mewnol.
- Mynegodd aelodau bryder am lefel digartrefedd ymhlith pobl sy'n gadael gofal ac fe'u cynghorwyd nad oedd y ffigyrau'n gywir. Ar hyn o bryd mae pobl sy'n gadael gofal ac sy'n byw mewn llety dros dro yn cael eu hystyried yn ddigartref, yn ôl y ffigyrau fel mae'n nhw'n cael eu cynhyrchu ar hyn o bryd.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau yn ystod y drafodaeth ar y Ffordd Ymlaen.

7 : CYNLLUN CYFLAWNI CYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU PLANT

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Graham Hinchey (Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd), Sarah McGill (Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau) ac

Irfan Alam (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant) i'r cyfarfod ac i gyflwyno'r adroddiad.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau gyflwyniad manwl i'r Aelodau, ond cyfeiriodd yn arbennig at y prif egwyddorion sy'n tanlinellu'r weledigaeth yn y dyfodol; Atal, Ardal Leol ac yn Canolbwyntio ar y Person. Rhoddodd hefyd fanylion ar sut mae Partneriaethau'n cael eu gweithredu.

Cafodd Aelodau wahoddiad i holi cwestiynau, gofyn am eglurhad pellach neu wneud sylwadau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd yr Aelodau sut y mae mesur cyflawniad. Dywedwyd wrthynt bod Cynllun Gweithredu yn amlinellu'r gwaith o wella canlyniadau a chynlluniau project penodol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai modd dosbarthu'r Cynllun Gweithredu.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau yn ystod y drafodaeth ar y Ffordd Ymlaen.

8 : Y FFORDD YMLAEN – EITEMAU GWASANAETHAU PLANT

Trafododd aelodau'r wybodaeth a dderbyniwyd gan nodi nifer o faterion y cytunodd y Cadeirydd fyddai'n cael eu cynnwys yn y llythyrau fyddai'n cael eu hanfon, ar ran y Pwyllgor, i'r Aelodau Cabinet a'r Swyddogion perthnasol.

9 : ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTER 4 ADDYSG

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (yr Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau) a Nick Batchelar (Cyfarwyddwr, Addysg a Dysgu Gydol Oes) i'r cyfarfod.

Siaradodd y Cyfarwyddwr gan amlinellu'r newidiadau arfaethedig i'r ffordd y mae Estyn yn arolygu Awdurdodau Lleol; bydd y newidiadau yn addasu'r dull o arolygu, yn enwedig o ran hunan-werthuso prosesau. Dywedodd y byddai cynigion i gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer y rhai hynny ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu rhoi gerbron y Cabinet ym mis Gorffennaf iddyn nhw eu hystyried. Rhagwelir y bydd craffu cyn-penderfyniad ar Anghenion Dysgu Ychwanegol ar agenda'r Pwyllgor yn eu cyfarfod ym mis Gorffennaf.

Cafodd Aelodau wahoddiad i holi cwestiynau, gofyn am eglurhad pellach neu wneud sylwadau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth am ofynion staffio'r ysgolion newydd sy'n cael eu datblygu, a sicrwydd y byddai digon o staff. Dywedodd y Cyfarwyddwr bod nifer o raglenni yn eu lle i roi'r sicrwydd hynny, gan gynnwys Academi Arweinyddiaeth Genedlaethol Cymru, y mae Prif Weithredwr newydd wedi'i benodi ar ei chyfer, a bod y Rhaglen Dysgu yn Gyntaf yn gwneud yn dda;

- Mynegodd Aelodau bryder am y lefelau o absenoldeb yn sgil salwch ymhlith cynorthwyrwyr dosbarth a staff cymorth mewn ysgolion, gan bod yna gynnydd bach wedi bod yn y ffigyrau.
- Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth am y nifer o ysgolion sydd â diffyg rheolaidd yn eu cyllidebau. Clywodd yr Aelodau bod y Fforwm Cyllidebau Ysgolion wedi bod yn monitro hyn yn ofalus, a bod cynnydd da wedi'i wneud oherwydd ymyrraeth. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr bod Coleg Cymunedol Llanfihangel a Glyn Derw nawr ar gau, bod gwelliannau wedi'u gwneud yn Ysgol Uwchradd Cantonian a bod pryderon wedi'u codi yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain oherwydd niferoedd disgyblion. Fodd bynnag, byddai'r ysgol honno yn llawn o fis Medi 2018. Roedd pryderon o hyd am gyllidebau Ysgolion Uwchradd Willows, Glyntaf a'r Eglwys Newydd. Mynegodd y Cyfarwyddwr hefyd bryder am y cyllidebau sy'n cael eu cario ymlaen gan ysgolion cynradd, gan nodi bod rhai yn ofalus ynglŷn â defnyddio eu cyllidebau.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau yn ystod y drafodaeth ar y Ffordd Ymlaen.

10 : CYNLLUN CYFLAWNI'R GYFARWYDDIAETH ADDYSG

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Sarah Merry (yr Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau) a Nick Batchelar (Cyfarwyddwr, Addysg a Dysgu Gydol Oes) i'r cyfarfod.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr fraslun i'r Aelodau o Flaenoriaethau Strategol y Gyfarwyddiaeth.

Cafodd Aelodau wahoddiad i holi cwestiynau, gofyn am eglurhad pellach neu wneud sylwadau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Nododd yr Aelodau'r cerrig milltir gan ofyn a oedd yr awdurdod yn bod yn rhy uchelgeisiol. Clywodd yr Aelodau bod cerrig milltir yn gallu bod yn ddefnyddiol, ond bod angen fodd bynnag i leihau nifer y dangosyddion perfformiad.
- Parthed y blaenoriaethau a amlinellwyd, gofynnodd yr Aelodau am eglurhad o'r hyn y mae Swyddogion yn credu yw'r prif heriau. Amlinellodd yr Aelod Cabinet nifer o heriau, y bwlch cyrhaeddiad, nifer y lleoedd ysgol, canlyniadau arholiadau tebyg ledled y Ddinas a darpariaeth gyson ledled y Ddinas.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau yn ystod y drafodaeth ar y Ffordd Ymlaen.

11 : Y FFORDD YMLAEN – EITEMAU'R GYFARWYDDIAETH ADDYSG

Trafododd aelodau'r wybodaeth a dderbyniwyd gan nodi nifer o faterion y cytunodd y Cadeirydd fyddai'n cael eu cynnwys yn y llythyrau fyddai'n cael eu hanfon, ar ran y Pwyllgor, i'r Aelodau Cabinet a'r Swyddogion perthnasol.

12 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar ddydd Mawrth 10 Gorffennaf 2018 am 4.30 pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.40 pm